Ardal TB Ganolradd y Gogledd - Cwestiynau cyffredin

1. Ble mae Ardal TB Ganolradd y Gogledd?

Ewch i Atodiad 1 isod ac edrych ar y map sy'n dangos lleoliad Ardal TB Ganolradd y Gogledd (ITBAN).

2. Beth yw sefyllfa TB gwartheg yn yr ITBAN?

Yn 2017 yn gyfan, cafwyd 63 o achosion newydd o TB, sef cynnydd o 75% o'i gymharu â'r 12 mis cyn hynny (36 o achosion) a'r ffigur blynyddol uchaf ers 2013 (66).

3. Beth yw'r duedd ddiweddaraf o ran TB gwartheg?

Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan Defra ar 17 Hydref 2018 yn dangos bod 11% o ostyngiad wedi bod yn yr ITBAN o fuchesi ag achosion newydd o TB a gostyngiad hefyd o 4% yn nifer y buchesi sydd o dan gyfyngiadau oherwydd clefyd yn y 12 mis hyd at Orffennaf 2017 o'u cymharu â'r 12 mis blaenorol.

4. Os ydy'r lefelau'n gostwng, pam ydych chi'n rhoi'r mesurau newydd hyn ar waith?

Rydyn ni'n parhau i gadw golwg fanwl ar y clefyd yn yr ITBAN ac er bod y gostyngiad hwn mewn achosion newydd yn galonogol, rydyn ni'n dal i boeni am lefel y clefyd yn yr ardal, yn enwedig am ei bod mor agos i'r Ardal TB Isel.

Mae'r profion cyffiniol ychwanegol yn ymateb i'r galw, ar sail nifer y buchesi sydd wedi colli eu statws 'heb TB Swyddogol' yn yr ardal. Canlyniad y gostyngiad hwn felly yw y bydd llai o fuchesi'n gorfod cael profion cyffiniol ychwanegol.

Mantais y mesurau ychwanegol hyn yw y byddwn yn gallu gweithredu'n gyflym i dargedu'r profion ychwanegol ar y buchesi sy'n wynebu'r risg mwyaf o gael achos newydd o TB, gan ennill y blaen ar y clefyd cyn iddo gael cyfle i ledaenu.

5. Ydy hyn yn broblem?

Fel rhan o'r Rhaglen Dileu TB, nod tymor hir Llywodraeth Cymru yw sicrhau 'statws heb TB swyddogol' i Gymru gyfan. Mae'r cynnydd mawr yn nifer yr achosion newydd yn Ardal Ganolradd y Gogledd yn destun gofid ac yn mynd yn groes i'n hymdrechion i ennill 'statws heb TB swyddogol' yng Nghymru. Mae'r Ardal Ganolradd yn ffinio â'r Ardal TB Isel a rhaid inni amddiffyn honno os ydym am ei gweld yn ennill ei statws swyddogol fel yr ardal heb TB gyntaf yng

Nghymru erbyn 2023. Mae'n bwysig felly bod ffermwyr gwartheg yn dal i gymryd camau i warchod eu gwartheg rhag TB.

6. Pa fesurau ydych chi'n eu cyflwyno?

Er mwyn cadw golwg fanylach ar y sefyllfa yn yr ITBAN, i gael hyd i achosion o'r haint yn gyflym ac i arafu'r cynnydd yn yr achosion newydd, rydyn ni am gynnal 'profion cyffiniol' ychwanegol mewn buchesi drws nesaf i fuchesi ag achos newydd o TB.

O hyn ymlaen, bydd buchesi sy'n ffinio â buchesi sydd ag achos newydd o TB yn yr ITBAN nawr yn gorfod cael prawf fel buches gyffiniol, yna 'prawf cyffiniol' arall chwe mis ar ôl y prawf cyntaf, prawf cyffiniol arall chwe mis wedi hynny a phrawf cyffiniol arall 12 mis wedi hynny.

Bydd ffermwyr buchesi sy'n cael canlyniad negyddol i brawf cyffiniol yn cael cynnig ymweliad gan arbenigwr o bractis lleol gyda chymorth ariannol y Llywodraeth i ‘gadw TB allan’ o dan y fenter Cymorth TB. Bydd y milfeddyg yn rhoi cyngor penodol ar fesurau bioddiogelwch, polisi prynu a sefyllfa'r clefyd yn yr ardal. Rydyn ni'n cynghori ffermwyr yn gryf i fanteisio ar y cyngor hwn.

7. Pryd bydd y mesurau'n cael eu cyflwyno?

Bydd y drefn newydd ar gyfer cadw TB allan o fuchesi cyffiniol yn yr ITBAN yn dechrau ar 13 Tachwedd 2018. Dyma fydd y mesur cyntaf i geisio troi'r rhod yn yr ITBAN; rydyn ni wrthi'n ystyried mesurau eraill hefyd ar gyfer lleihau TB yn yr ardal.

8. Am faint bydd y mesurau hyn yn para?

Bydd y mesurau hyn yn eu lle am o leiaf 2 flynedd ond byddwn yn edrych eto ar y sefyllfa ar ôl 12 mis i weld a ydyn nhw wedi llwyddo i ostwng nifer yr achosion newydd yn yr ardal.

9. Beth yw amcan y profion cyffiniol ychwanegol?

Amcan y drefn newydd yw ennill y blaen ar y clefyd a chael hyd i achosion newydd a delio â nhw'n gynt gan obeithio lleihau'u heffaith a dileu'r clefyd cyn iddo gael cyfle i ymsefydlu yn y gwartheg a'r bywyd gwyllt. Bydd y profion cyffiniol ychwanegol yn arwain at gynnal mwy o brofion gwyliadwriaeth hefyd yn y tymor byr yn yr ardaloedd lle ceir mwy o dystiolaeth.

10. Pwy fydd yn talu am y profion cyffiniol ychwanegol?

Llywodraeth Cymru fydd yn talu am gostau profi'r profion cyffiniol.

11. Beth yw amcan ymweliad 'cadw TB allan' Cymorth TB?

Amcan ymweliad Cymorth TB fydd rhoi cyngor penodol i ffermwyr ar fesurau ymarferol i leihau'r risg o gyflwyno TB i'w ffermydd. Bydd yr ymweliadau'n cael eu cynnig i ffermwyr yn yr ITBAN sydd wedi cael profion TB cyffiniol clir. Y ffocws fydd rhoi cyngor ymarferol ar fioddiogelwch, sefyllfa'r clefyd yn yr ardal a pholisi prynu a gwerthu.

Bydd y buchesi cyffiniol hynny y bydd prawf cyffiniol neu brawf arall yn dangos bod TB arnyn nhw yn cael un o ymweliadau arferol Cymorth TB.

Rydyn ni'n cynghori ffermwyr yn gryf i fanteisio ar y cyngor hwn.

12. Rwy'n ffermwr yn yr ITBAN. Sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio arna i?

Os ydy'ch buches chi drws nesaf i fuches yn yr ITBAN sydd ag achos newydd o TB, bydd yn rhaid cynnal y profion cyffiniol ychwanegol newydd ar eich buches. Ar hyn o bryd, mae buchesi sy'n ffinio â ffermydd sydd wedi colli eu 'statws heb TB swyddogol' yn gorfod cael prawf cyffiniol ac yna prawf arall mewn 12 mis. Gyda'r drefn newydd, bydd dau brawf arall yn cael eu cynnal bob chwe mis.

13. Beth alla i ei wneud i ddiogelu fy musnes?

Gallwch ddiogelu'ch busnes rhag TB trwy gymryd camau pendant i leihau'r risg y gallai TB effeithio ar eich busnes. Bydd milfeddygon swyddogol yn gallu rhoi cyngor personol ichi yn ystod yr ymweliad 'Cadw TB allan' ar brynu 'gwybodus' a bioddiogelwch.

Prynu gwybodus / Masnachu ar sail risg

Trwy ddod â gwartheg newydd i'ch fferm, mae wastad risg y dôn nhw â chlefyd gyda nhw. Er enghraifft, ar ôl cael un achos o TB, mae'r fferm yn debygol o barhau i gael achosion newydd am gyfnod o 18 mis. Rydych chi'n fwy tebygol o brynu anifail â TB arno os ydych yn prynu anifail o fferm sydd wedi cael achos o TB.

I'r drefn 'Prynu ar sail Risg' weithio, rhaid i'r prynwr siarad â'r gwerthwr er mwyn deall yn well a oes perygl cyflwyno'r clefyd i'w fuches. Trwy ofyn am wybodaeth yn y man gwerthu, bydd y prynwr yn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a chymryd camau synhwyrol cyn dod ag anifail newydd i'w fferm.

Bioddiogelwch

Beth yw bioddiogelwch?

Mae bioddiogelwch yn golygu cymryd camau i leihau'r risg y gallai clefyd heintus gael ei drosglwyddo i'ch buches chi ac i fuchesi cyffiniol.

O ble daw'r risgiau mwya'?

• Wrth symud anifeiliaid;
• Wrth i anifeiliaid ar y ffin rhwng dwy fferm ddod i gysylltiad â'i gilydd;
• Wrth i beiriannau, cerbydau a phobl fynd a dod ar y fferm;
• Wrth gael gwared ar stoc marw;
• Amgylchedd a lleoliad y fferm.

Beth yw manteision cadw at fesurau bioddiogelwch da?

- Helpu i gadw clefydau allan;
- Lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd;
- Helpu i gadw anifeiliaid yn iach;
- Gall leihau costau atal clefydau;
- Gall wneud y fferm yn fwy effeithiol;

Beth fedra i ei wneud?

Lleihau'r risg o heintio'ch fferm a rhwystro'r haint rhag lledaenu trwy greu cyfres o rwystrau i'w gadw allan.

- Mesur – defnyddio cofnodion i weld faint o'r clefyd sydd gennych ar eich fferm;
- Rheoli – cynlluniwch gyda'ch milfeddyg i roi mesurau ar waith, a
- Monitro – cadwch olwg ar y mesurau a'u newid os oes angen.

Siaradwch â'ch milfeddyg. Trwy gael sgwrs â'ch milfeddyg am fioddiogelwch a chynlluniau iechyd, gall eich helpu i leihau'r perygl o adael clefyd i'ch fferm a rheoli'r clefyd yn haws a'i rwystro rhag lledaenu.

Cewch ragor o wybodaeth a chysylltiadau defnyddiol yn y llyfryn, TB Gwartheg, Lleihau'r Risg yn Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN). Fe welwch ddolen iddi isod.

https://gov.wales/docs/drah/publications/181016-bovine-tb-itban-booklet-cy.pdf

https://gov.wales/docs/drah/publications/181016-bovine-tb-itban-booklet-en.pdf

14. A oes bwriad cynnal mesurau eraill yn yr Ardal?

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal mesurau eraill yn yr ardal i leihau'r achosion o'r clefyd.

15. Rwy'n ffermio ar ffin Cymru a Lloegr. A fydd y rheolau newydd yn effeithio arna i?

Byddan, os oes gennych CPH o Gymru. Ni fydd y mesurau newydd yn newid y ffordd y mae ffermydd ar y ffin yn cael eu rheoli ac os oes gan ffermydd ar y ffin Rif CPH o Gymru, bydd angen iddynt gydymffurfio â'r mesurau newydd hefyd. Os ceir achosion trawsffiniol o TB, bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn eu rheoli fesul achos. Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar TB (TBAS) yn cynnig ymweliadau gyda chymorthdal â ffermydd ar ochr Lloegr y ffin.

16. A yw'r rheolau yr un fath o ran Profion cyn ac ar ôl symud?

Ydyn. Bydd angen cynnal prawf cyn symud ar holl wartheg Cymru oni bai eu bod yn symud o neu o fewn yr Ardal TB Isel ond bydd rhaid cynnal y prawf ar fuchesi yn yr Ardal TB Isel os ydyn nhw'n fuchesi risg uchel.

Bydd buchesi sy'n cael profion cyffiniol yn yr ITBAN yn dal yn gorfod cael profion cyn symud.

Yr unig wartheg yng Nghymru sy'n gorfod cael Prawf ar ôl Symud yw'r rheini sy'n cael eu symud o Ardal TB Ganolradd neu Ardal TB Uchel yng Nghymru (neu o Ardal Risg Uchel neu Ardal Ffiniol yn Lloegr, neu o Ogledd Iwerddon) i'r Ardal TB Isel.

Dim ond pan fydd gwartheg yn cael eu symud o ardal lle mae statws y clefyd yn uwch i'r Ardal TB Isel y mae angen Prawf ar ôl Symud.

17. Pam ydych chi'n gofyn am brofion cyffiniol ychwanegol. Does bosib nad yw'r prawf yn gywirach nag ydych yn ei awgrymu?

Bydd y profion ychwanegol yn rhoi'r cyfle i ddarganfod anifeiliaid heintiedig yn gyflym gan leihau'r perygl i'r clefyd heintio gwartheg eraill yn y fuches ac anifeiliaid gwyllt yn yr ardal. Os bydd buwch yn adweithio i'r prawf croen, hyd yn oed os nad oes briwiau i'w gweld yn yr archwiliad post-mortem, mae'n debygol ei bod wedi cael ei heintio gan TB.

Ond tua 80% yw lefel sensitifrwydd y prawf croen, felly dim ond 80 o bob 100 o'r gwartheg sydd wedi'u heintio sy'n debygol o gael prawf positif yn ôl y dehongliad safonol. Mewn rhai anifeiliaid, dim ond adwaith rhannol sy'n cael ei weld (prawf amhendant). Mae cyfran sylweddol o'r anifeiliaid hyn yn cael adwaith llawn mewn prawf diweddarach (neu yn ystod eu bywyd).

Cynhara'n y byd y caiff gwartheg heintiedig eu darganfod a'u tynnu o'r fuches, lleia'n y byd yw'r perygl y caiff y clefyd ledaenu i weddill y fuches.

Mae'n bwysig er lles iechyd tymor hir y fuches bod y gwartheg hynny'n cael eu cymryd o'r fuches cyn gynted ag y medrir.

18. A fyddwch chi'n edrych ar yr anifeiliaid gwyllt yn yr ITBAN fel rhan o'r mesurau newydd?

Byddwn, os bydd buches yn cael ei rhoi o dan gyfyngiadau TB am 18 mis neu fwy a bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod moch daear yn gysylltiedig rywffordd â pharhad y clefyd.

19. A fydd yr Arolwg o Foch Daear Marw'n parhau fel rhan o'r dull rhanbarthol?

Gwnaethon ni ddechrau Arolwg Cymru Gyfan o Foch Daear Marw ar 1 Medi 2017. Roedd yn cynnwys hefyd genoteipio canlyniadau positif.

Mae canlyniadau'r Arolwg wedi'u dadansoddi ond gan mai ychydig iawn o foch daear marw ddaeth o'r ITBAN, mae'n anodd iawn dweud a yw anifeiliaid gwyllt wedi dylanwadu ar y cynnydd yn nifer yr achosion.

Mae'n bwysig iawn felly bod unrhyw un sy'n cael hyd i fochyn daear marw naill ai yn yr ITBAN neu unrhyw le arall yng Nghymru yn ffonio **0808 1695110** am ragor o wybodaeth a chyfarwyddiadau.

20. A oes cysylltiad rhwng moch daear wedi'u heintio a TB mewn gwartheg yng Nghymru?

Oes. Ar ôl dadansoddi moch daear Arolwg Moch Daear Marw 2005/06, gwelwyd bod y teipiau moleciwlaidd o *M.bovis* yn y moch daear hynny yr un fath â'r rheini yng ngwartheg yn yr ardal. Daeth adroddiad yr arolwg i'r casgliad bod cysylltiad agos rhwng twbercwlosis mewn moch daear yng Nghymru a'r clefyd mewn gwartheg, a bod hyn yn awgrymu bod yr haint yn cael ei drosglwyddo rhwng y ddwy rywogaeth.

21. Sut ydw i'n trefnu i'm buches gael tystysgrif CHeCS?

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Cynllun Ardystio Iechyd Gwartheg ar gyfer TB, dylech drafod hynny gyda'ch milfeddyg a chysylltu ag un o ddarparwyr y cynllun:

HiHealth Herdcare: 01314 402628
Cynllun Iechyd Gwartheg Premiwm: 01835 822456
http://www.checs.co.uk

Atodiad 1

Intermediate TB Area North (ITBAN)